# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** | **DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER, 13 RHAGFYR 2017 am 2.00 o'r gloch** | **WEDNESDAY, 13 DECEMBER 2017 at 2.00 pm** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1 SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGEFNI** | **COMMITTEE ROOM 1 COUNCIL OFFICES LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** **Shirley Cooke 01248 752514** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**

Cynghorwyr / Councillors:-

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Vaughan Hughes (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Carwyn Jones, R G Parry OBE, FRAgS, Dylan Rees, Nicola Roberts

**Y Grŵp Annibynnol / The Independent Group**

Richard Griffiths, Dafydd Roberts

**Plaid Lafur Cymru / Wales Labour Party**

J Arwel Roberts

**Annibynnwyr Môn / Anglesey Independents**

Eric Jones, R Llewelyn Jones (Cadeirydd/Chair)

## R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 27 Medi 2017.

3 **CYNIGION DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2018/19** (Tudalennau 5 - 8)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

4 **SIARTER CYMRU AR GYFER DATBLYGU A CHEFNOGI AELODAU** (Tudalennau 9 - 10)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

5 **AMSERIAD CYFARFODYDD Y CYNGOR** (Tudalennau 11 - 14)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi, 2017

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Griffiths, Carwyn Jones, Eric Jones, R G Parry OBE FRAgS, Dylan Rees, Dafydd Roberts, Nicola Roberts |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Rheolwr Datblygu (Adnoddau Dynol) (MW)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Robert Llewelyn Jones (Cadeirydd), John Arwel Roberts |

---

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2. COFNODION**

Cyflwynwyd i'w cadarnhau - cofnodion drafft cyfarfodydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 29 Mawrth, 2017
- 31 Mai, 2017

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion uchod fel rhai cywir.**

**3. YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU – DIWYGIO SYSTEM ETHOLIADOL LLYWODRAETH LEOL YNG NGHYMRU**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar fwriad Llywodraeth Cymru i ddiwygio system etholiadol llywodraeth leol.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod Llywodraeth Cymru yn gwahodd sylwadau ar ddiwygio etholiadol, sy’n ymwneud yn bennaf â'r ffordd y mae pobl yn cofrestru ac yn bwrw pleidlais. Nodwyd bod y ddogfen ymgynghori yn ceisio moderneiddio system etholiadol llywodraeth leol ac mae'n cynnwys y prif feysydd canlynol: -

- Adeiladu’r etholfraint

- Gwella cofrestru
- Y system bleidleisio
- Y broses bleidleisio
- Sefyll am etholiad
- Swyddogion Canlyniadau

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ddogfen ymgynghori yw 10 Hydref, 2017.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd at yr ymateb drafft a baratowyd ac a oedd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn. Mewn ymateb, rhoddodd y Pwyllgor ei farn a nododd y canlynol: -

- dylid gostwng yr oed ar gyfer pleidleisio i 16;
- nid yw'n ymarferol cael cofrestrau ar wahân i bleidleisio mewn etholiadau Cyngor Sir ac etholiadau lleol;
- llywodraeth ganolog ddylai fynd i'r afael ag ymestyn hawliau pleidleisio;
- cefnogir treialu dulliau electronig o bleidleisio, yn y gobaith o annog pobl ifanc i bleidleisio;
- dylid rhoi mwy o bwyslais ar bleidleisio drwy'r post yn hytrach na phleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio;
- nodwyd bod etholiadau bob amser yn digwydd ar ddydd Iau. Awgrymwyd bod Llywodraeth Cymru yn dilyn enghreifftiau a osodwyd gan wledydd eraill a rhoi'r dewis i ddinasyddion bleidleisio ar benwythnosau.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi safbwynt y Pwyllgor ar yr ymateb drafft cychwynnol (Atodiad 2).**
- **Bod y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, yn cwblhau'r sylwadau yn derfynol ac yn ymateb i Lywodraeth Cymru cyn 10 Hydref, 2017.**

## 4. CYNLLUN HYFFORDDI A DATBLYGU AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol ar y trefniadau hyfforddi a chynefino ar ôl yr etholiadau ar gyfer Aelodau Etholedig, fel y cyflwynwyd nhw i'r Pwyllgor Safonau ar 13 Medi 2017.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu fod Rhaglen Sefydlu wedi'i datblygu ers Etholiadau'r Cyngor Sir ym mis Mai i gwrdd ag anghenion hyfforddi Aelodau Etholedig a gofynion newidiol yr Awdurdod hwn. Sefydlwyd y Cynllun Datblygu gyda mewnbwn gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac awdurdodau lleol ledled Cymru. Adolygwyd a theilwriwyd y Cynllun i gwrdd ag anghenion lleol gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac Arweinyddion Grwpiau'r Cyngor, ac mae'n esblygu'n barhaus.

Cyflwynwyd y Cynllun Datblygu ar gyfer 2017/18 i'r Cyngor llawn ar 28 Chwefror, 2017 ac fe gafodd ei fabwysiadu. 'Roedd cyfnod cychwynnol y Cynllun yn canolbwyntio ar sesiynau cynefino i'r Aelodau newydd a chynigiwyd 20 o sesiynau datblygu ffurfiol i'r Aelodau rhwng Mai ac Awst, 2017.
Nodwyd y bydd angen i rai Aelodau gael rhagor o hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r IPad. Mae trefniadau wedi eu gwneud i'r tîm TGCh ddarparu sesiynau hyfforddi pellach maes o law.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu fod Aelodau'n cael eu hannog i gwblhau taflenni gwerthuso er mwyn cyflwyno atborth ar ôl mynychu sesiynau hyfforddi .Nodwyd bod cofnod o bresenoldeb Aelodau ym mhob sesiwn. Nodwyd hefyd fod cyflwyniadau a roddir yn y sesiynau hyfforddi yn cael eu huwchlwytho i MonITor, sef gwefan y Cyngor ar gyfer staff ac Aelodau Etholedig.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu y bydd pedwar Aelod Etholedig yn treialu rhaglenni E-Ddysgu i gynorthwyo datblygiad personol yr Aelodau o fis Medi, 2017. Caiff y rhaglenni eu cynnal trwy Academi Cymru Gyfan.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi cynnydd y Rhaglen Datblygu Aelodau.**
- **Bod y Rheolwr Datblygu yn amlygu sesiynau hyfforddi sy'n orfodol ar gyfer Aelodau newydd / Aelodau a ailetholwyd.**

## 5. ADRODDIADAU BLYNYDDOL YR AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar y trefniadau arfaethedig ar gyfer cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol Aelodau ar gyfer 2016/17.

Mae Adran 5 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod trefniadau ar waith i Aelodau baratoi adroddiadau blynyddol.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar yr amserlen i'r 21 Aelod a ailetholwyd gyflwyno eu hadroddiadau blynyddol ar gyfer 2016/17 a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 30 Medi, 2017.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa o ran cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau ar gyfer 2016/17.**

## 6. RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR AR GYFER 2017/18

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2017/18.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod y Pwyllgor wedi nodi'r Isod fel rhan o'i Rhaglen Waith ar gyfer 2017/18: -

- Y Cynllun Datblygu a Hyfforddi Aelodau, gan gynnwys Adolygiadau Datblygiad Personol;
- Gweddarlledu cyfarfodydd;
- Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau;
- Adroddiad Blynyddol y Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol;
- Ymgynghoriadau perthnasol Llywodraeth Cymru;
- Cyrff allanol a threfniadau adrodd;
- Amser cyfarfodydd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 3.00 pm**

**Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**IS-GADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **13 RHAGFYR, 2017** |
| **TEITL:** | **CYNIGION DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2018/19** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **I NODI CYNIGION DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2018/19** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |

## 1.0 Cynigion Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol am 2018/19

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) wedi cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol Drafft ar gyfer 2018-19. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 28 Tachwedd, 2017. Ymgynghorwyd ag Arweinwyr Grwpiau ar y cynigion.

Mae adroddiad drafft y Panel yn seiliedig ar adborth a gafwyd trwy gyfarfodydd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Awdurdodau.

Crynodeb o'r Cynigion

- Cynnydd arfaethedig o 1.49% yng nghyflog Cynghorwyr i £13,600. Mae hyn yn gynnydd o £200 yn y cyflog sylfaenol.
- Ni chynigir unrhyw gynnydd yn yr uwch gyflogau a delir.
- Dileu'r ddwy lefel o gyflog ar gyfer Aelodau Pwyllgorau Gwaith a Chadeiryddion Pwyllgorau.
- Mae'r Panel yn dal i bryderu nad yw llawer o Aelodau yn hawlio ad-daliad o gostau gofal.
- Cyflwyno trefn absenoldeb salwch newydd ar gyfer uwch Aelodau.
- Mae'r Panel yn pryderu nad yw Cynghorwyr yn derbyn offer Technoleg Gwybodaeth neu ffonau digonol a / neu gefnogaeth ddigonol gan Gynghorau ar sail gyson. (Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd sy'n gyfrifol am oruchwylio'r materion hyn mewn awdurdodau).
- Eglurhad ar Aelodau Pwyllgorau Gwaith yn Rhannu Swyddi (gellir rhannu'r cyflog rhwng 2 Aelod o'r Pwyllgor Gwaith mewn trefniant 'rhannu swydd').
- Cynghorau Tref a Chymuned – cynigion i ganiatáu a / neu i fynnu talu lwfans cyfrifoldeb arbennig yn seiliedig ar faint y cyngor cymuned / tref.

Mae Arweinwyr Grwpiau wedi croesawu cael gwared ar y ddwy lefel gyflog ar gyfer Cadeiryddion y Pwyllgor Gwaith a Chadeiryddion Pwyllgor. Amgaeir, er

gwybodaeth, gopi o'r ymateb a anfonwyd i'r Panel mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor hwn.

**1.1 Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynigion y Panel ar gyfer 2018/19 fel y manylir arnynt yn yr adroddiad hwn.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**29/11/17**

**CYNGOR SIR**
**YNYS MÔN**
**ISLE OF ANGLESEY**
**COUNTY COUNCIL**

**ADRAN Y DIRPRWY PRIF WEITHREDWRAIG**
**DEPARTMENT OF THE DEPUTY CHIEF EXECUTIVE**

**LYNN BALL LL.B., (Hons.) Cyfreithiwr/Solicitor**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (BUSNES Y CYNGOR) / SWYDDOG MONITRO**
**HEAD OF FUNCTION (COUNCIL BUSINESS) / MONITORING OFFICER**

CYNGOR SIR YNYS MÔN /
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir / Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn / Anglesey
LL77 7TW

DX: 701771 – LLANGEFNI

ffôn / tel: (01248) 752108

E-bost - Email: huwjones@ynysmon.gov.uk

Ein Cyf – Our Ref. HJ/JJ
Eich Cyf – Your Ref.

28 Tachwedd/November 2017

Ysgrifenyddiaeth Panel Annibynnol Cymru ar
Gydnabyddiaeth Ariannol
Llywodraeth Cymru
Llawr Cyntaf, Adain y Gogledd, M05
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Annwyl Syr/Madam

**YMATEB I ADRODDIAD Y PANEL ANNIBYNNOL AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2018/19**

Diolch am y cyfle i gyflwyno sylwadau ar Adroddiad drafft y Panel ar gyfer 2018.

Mae'r Cyngor yn croesawu'r bwriad i ddileu'r lefelau tâl gwahanol ar gyfer Aelodau Pwyllgor Gwaith a Chadeiryddion Pwyllgor. Nid oedd y Cyngor yn gefnogol i hyn yn y gorffennol. Hefyd mae bwriad y Panel i ddiwygio'r fframwaith ar gyfer absenoldeb salwch i ddeilyddion cyflog uwch i'w groesawu.

Edrychwn ymlaen at dderbyn yr adroddiad terfynol maes o law.

Dear Sir/Madam

**RESPONSE TO THE INDEPENDENT RENUMERATION PANEL REPORT FOR 2018/19**

Thank you for the opportunity to comment on the draft report for 2018.

The Council welcomes proposals to remove the two levels of salary for Executive Members and Committee Chairs. This was not previously supported by the Council. Also the Panel's intention to revise the framework on sickness absence for senior Members is welcomed.

We look forward to receiving the final report in due course.

Yn gywir/Yours sincerely

**J Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd/**
**Head of Democratic Services**

*Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.*
*You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both language*

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **13 RHAGFYR, 2017** |
| **TEITL:** | **SIARTER DATBLYGU AELODAU** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **CADARNHAU Y CAMAU GWEITHREDU** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |

**1.0 Siarter Datblygu Aelodau**

Yn 2014 llwyddodd y Cyngor i dderbyn Siarter CLlC ar gyfer cefnogi a Datblygu Aelodau. Pwrpas y Siarter yw darparu fframwaith eang ar gyfer cynllunio, hunanasesu, gweithredu ac adolygu yn ogystal â rhannu arferion da ac arloesedd. Mae’r mater hwn eisoes wedi bod yn destun adroddiadau i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Rhoddwyd y Siarter i’r Cyngor am gyfnod o 3 blynedd. Argymhellir y dylai’r Cyngor yn awr ail ymgeisio. Mae’r gwaith yn cynnwys hunan asesiad a dilyn criteria CLLlC.

Bwriedir rhoddi sylw i hyn yn 2018 a chyflwyno adroddiad cynnydd i’r Pwyllgor hwn ym Mawrth, 2018.

**2.0 Argymhelliad**

Gofynnir i’r Pwyllgor gadarnhau'r camau gweithredu a nodir yn yr adroddiad.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**29/11/17**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Pwyllgor: | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Dyddiad y cyfarfod: | 13 Rhagfyr 2017 |
| Teitl: | Amseriad Cyfarfodydd y Cyngor |
| Awdur: | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

## 1.0 Cefndir

1.1 Yn unol â'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru dan Adran 6(1) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, rhaid i'r Cyngor gynnal arolwg ymhlith yr Aelodau o ran amseroedd cynnal cyfarfodydd yr awdurdod lleol. Dylai pob awdurdod lleol adolygu amseroedd cynnal cyfarfodydd o leiaf unwaith y tymor, gorau oll petai hynny'n fuan ar ôl ethol Cyngor newydd.

1.2 Yn dilyn ymgynghoriad gydag Arwyddion Grwpiau ar y 26 o Hydref 2017 dosbarthwyd holiadur i'r holl Aelodau er mwyn cael eu barn. Y dewisiadau oedd cychwyn cyfarfodydd am 10.00 yb, 2.00 yh, 4.00 yh a 6.00 yh.

## 2.0 Ymatebion

2.1 Cafwyd 13 o ymatebion (43%). Amlinellir isod y dewisiadau a ffafrir:

| **Pwyllgor** | **Adborth yn nhrefn y dewis a ffafrir** | **Nifer sy'n ffafrio'r amser fel dewis cyntaf** |
|---|---|---|
| **Cyngor Sir** | | |
| 10.00 yb | 2 | 4 |
| 2.00 yh | 1 | 7 |
| 4.00 yh | 3 | 1 |
| 6.00 yh | 4 | 0 |
| **Pwyllgor Gwaith** | | |
| 10.00 yb | 1 | 10 |
| 2.00 yh | 2 | 0 |
| 4.00 yh | 3 | 0 |
| 6.00 yh | 4 | 0 |
| **Pwyllgorau Sgriwtini** | | |
| 10.00 yb | 1 | 6 |
| 2.00 yh | 2 | 5 |
| 4.00 yh | 3 | 1 |
| 6.00 yh | 4 | 0 |
| **Lled-farnwrol** | | |
| 10.00 yb | 2 | 4 |
| 2.00 yh | 1 | 7 |
| 4.00 yh | 3 | 1 |
| 6.00 yh | 4 | 0 |

| Pwyllgor | Adborth yn nhrefn y dewis a ffafrir | Nifer sy'n ffafrio'r amser fel dewis cyntaf |
|---|---|---|
| **Pwyllgorau eraill** | | |
| 10.00 yb | 1 | 7 |
| 2.00 yh | 2 | 5 |
| 4.00 yh | 3 | 0 |
| 6.00 yh | 4 | 0 |

**2.2 Crynodeb o'r canlyniadau**

- Cyngor Sir – mwyafrif yn cefnogi 2.00yh

- Pwyllgor Gwaith – cefnogaeth i 10.00yb

- Pwyllgorau Sgriwtini (2.00yh ar hyn o bryd) – mwyafrif yn cefnogi 10.00yb.

- Pwyllgorau lled-farnwrol ag ati – mwyafrif yn cefnogi 2.00yh. Dylid nodi yma bod un Aelod yn cefnogi symud y Pwyllgor Cynllunio i 4.00yh. Y drefn arferol ar hyn o bryd yw bod y Pwyllgor Cynllunio yn cychwyn am 1.00yh.

- Pwyllgorau eraill – mwyafrif yn cefnogi 10.00yb.

**2.3 Sylwadau eraill**

2.3.1 Nid oedd rhai Aelodau'n ffafrio cyfarfodydd hwyr oherwydd galwadau eraill yn y gymuned (ee cyfarfodydd cynghorau cymuned a chyrff llywodraethu). Cyfeiriodd un Aelod hefyd at y pwysau ychwanegol ar y swyddogion sy'n mynychu'r cyfarfodydd.

2.3.2 Roedd tri aelod o'r farn y byddai cychwyn am 1.00yh yn well na 2.00yh, yn enwedig pan mae rhaglenni'r cyfarfodydd yn faith. Roedd un aelod yn ffafrio cychwyn y Pwyllgor Cynllunio am 4.00yh. Roedd aelod arall yn ffafrio cychwyn y mwyafrif o gyfarfodydd am 4.00yh er hwylustod i'r rhai sy'n gweithio a'r cyhoedd, ond aelod arall o'r farn nad oedd unrhyw fantais cychwyn am 4.00yh, gan y byddai'n parhau i darfu ar oriau gwaith yn ogystal ag amharu ar gyflawni dyletswyddau gyda'r nos (cynghorau cymuned ayyb). Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith bod cyfarfodydd sy'n cael eu gwe-ddarlledu ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor.

**3.0 Casgliadau**

3.1 Ymddengys mai'r unig newid a gefnogir gan y mwyafrif yw symud amser cychwyn y Pwyllgorau Sgriwtini i 10.00yb.

## 4.0 Asesiad Effaith Cydraddoldeb

4.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor, wrth adolygu polisïau neu weithdrefnau sydd eisoes ar waith, gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a rhoi 'ystyriaeth ddyledus' (h.y. rhoi pwysau priodol) i ganlyniadau asesiadau o'r fath. Rhoddir isod ganfyddiadau'r asesiad a wnaed:

4.1.1 Ni ddylai gweithredu'r argymhelliad i newid amseroedd cychwyn o'r pnawn i'r bore gael effaith gwahaniaethol unrhyw grŵp a warchodir.

4.1.2 Fodd bynnag, dylid sicrhau fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Cyngor Llawn yn ymwybodol o'r adborth a gafwyd o blaid, yn ogystal ag yn erbyn cynnal cyfarfodydd hwyr cyn gwneud penderfyniad terfynol (gweler 2.3 uchod).

4.1.3 Dylid cymryd y cyfle hwn i godi ymwybyddiaeth am yr ad-daliad costau gofal sydd ar gael i alluogi unrhyw un y byddai ei gyfrifoldebau fel gofalwr yn cyfyngu ar allu i gyfranogi fel aelod o awdurdod i gyflawni ei rôl, neu roi cymorth gofal i aelod er mwyn galluogi'r unigolyn hwnnw i gyflawni ei rôl. Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o'r farn y dylai Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd gymryd camau i annog aelodau sy'n gymwys i hawlio'r ad-daliad hwn.

4.1.4 Dylid monitro unrhyw drefniadau newydd gan na fydd modd ystyried effaith gwirioneddol unrhyw bolisi nes y'i gweithredir.

## 5.0 Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor:

5.1 ystyried sylwadau'r Aelodau a ymatebodd i'r holiadur ac ystyried y priodoldeb o symud amseriad y Pwyllgorau Sgriwtini i gychwyn am 10.00yb.

5.2 gwneud argymhellion i'r Cyngor Llawn ar amseriad cyfarfodydd y Cyngor o 2018/19.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**06/12/17**

This page is intentionally left blank